Rhif: WG35061

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

Diwygio rheoliadau a chod ymarfer

Mai 2018

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-78937-289-2

**Cynnwys**

Tudalen

Cyflwyniad 3

Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru 4

**Atodiad A** – Rhestr o'r ymatebion 19

## 1. Cyflwyniad

1.1. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn o 4 Medi i 27 Tachwedd 2017, ac roedd yn gofyn am safbwyntiau ar ddiwygiadau arfaethedig i Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 a chod ymarfer newydd ar weithredu swyddogaethau awdurdod lleol yn gysylltiedig â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig.

1.2. Dyma'r newidiadau a gynigiwyd gennym:

- **Materion ychwanegol i'w hystyried a'u cynnwys yn adroddiad yr awdurdod lleol i'r llys**

1.3. Nodir y materion sydd i'w cynnwys gan awdurdod lleol wrth asesu addasrwydd person i fod yn warcheidwad arbennig, ac sydd i'w cynnwys yn adroddiad yr awdurdod lleol i'r llys, yn yr atodlen i Reoliadau 2005. Cynigiwyd gosod materion ychwanegol yn yr atodlen, er mwyn creu fframwaith asesu cryfach a chadarnach ar gyfer darpar warcheidwaid arbennig.

- **Darparu gwasanaethau cymorth gwarcheidiaith arbennig i blant a fu'n derbyn gofal sy'n byw mewn ardal awdurdod lleol arall**

1.4. Gwnaethom gynnig rheoliad newydd yn pennu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol a fu'n gofalu am blentyn yn union cyn i orchymyn gwarcheidiaeth arbennig gael ei wneud barhau i fodloni unrhyw anghenion cymorth gwarcheidiaeth arbennig a nodwyd, a hynny am dair blynedd, waeth ble y mae'r plentyn yn byw. Byddai hyn yn gwneud Rheoliadau 2005 yn fwy eglur ac yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd a'r rheoliadau mabwysiadu. Byddai'r rheoliad hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol adolygu'r gwasanaethau cymorth hyn heb fod yn hwyrach na thri mis cyn diwedd y cyfnod o dair blynedd, i roi gwybod i'r awdurdod lleol lle mae'r person sy'n derbyn y cymorth yn byw am unrhyw anghenion cymorth parhaus, ac i gyfeirio'r person at wybodaeth, cyngor a chymorth perthnasol lleol.

- **Dyletswydd awdurdod lleol i roi gwybod i ymgeiswyr am eu hawl i wneud cais am asesiad ar gyfer cymorth gwarcheidiaeth arbennig**

1.5. Mae Adran 14F o Ddeddf Plant 1989 a Rheoliadau 2015 yn nodi'r bobl y mae'n ofynnol i awdurdod lleol gynnal asesiad o anghenion ar gyfer gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig ar eu cyfer, os ydynt yn gwneud cais am asesiad. Gwnaethom gynnig gosod gofyniad newydd yn y cod ymarfer bod yn rhaid i awdurdod roi gwybod i'r bobl hyn bod ganddynt hawl i wneud cais am asesiad ar gyfer gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig pan wneir cais neu phan fo'r llys yn cyfarwyddo'r awdurdod lleol i gynnal asesiad addasrwydd.

**Camau nesaf**

1.6. Bydd y rheoliadau diwygio a'r cod ymarfer yn cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ebrill 2018. Bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill o'r newidiadau cyn iddynt ddod i rym ar 1 Gorffennaf 2018.

## 2. Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

2.1. Cafwyd 29 o ymatebion i'r ymgynghoriad, 20 ohonynt gan sefydliadau a 9 gan unigolion.

### a) Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018

- **Materion i'w cynnwys mewn adroddiadau awdurdodau lleol i'r llysoedd**

**Cwestiwn 1** – A ydych yn fodlon bod y rhestr ddiwygiedig o faterion i'w cynnwys yn adroddiadau'r awdurdod lleol i'r llys yn rhoi sylw i'r holl faterion perthnasol?

2.2. Croesawyd y cynigion hyn yn eang. Er enghraifft, roedd Comisiynydd Plant Cymru yn croesawu yn arbennig y bwriad i gynnwys anghenion penodol brodyr a chwiorydd, pwyslais ar anghenion cyfredol y plentyn a'i anghenion yn y dyfodol, a'r gofyniad am wiriad manylach o ran cofnodion troseddol.

2.3. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebion (yn enwedig gan awdurdodau lleol) yn nodi eu bod o'r farn y dylai'r materion a nodir fod yn fwy penodol. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys:

- Dylai'r asesiad o gynneddf darpar warcheidwad arbennig nodi hefyd unrhyw fylchau ym mhrofiad y person o fod yn rhiant, ei brofiad â'i rieni ei hun a sut riant a fu i'w blant ei hun – Rheoliad 4(4)(i).
- Yn ogystal ag ystyried dymuniadau a theimladau'r darpar warcheidwad arbennig o ran cyswllt rhwng y plentyn a pherthnasau, profi hefyd ddealltwriaeth y darpar warcheidwad o'r anghenion cyswllt wrth i'r plentyn dyfu i fyny – Rheoliad 4(4)(k)(jd).
- Wrth wneud argymhelliad ynghylch pa drefniadau cyswllt y dylid eu sefydlu, cynnwys hefyd gynlluniau ar gyfer ymdrin ag anghenion cyswllt yn y dyfodol wrth i'r plentyn dyfu i fyny, sut y caiff y gwarcheidwad arbennig gefnogaeth i reoli'r rhain, a sut y caiff y trefniadau eu monitro – Rheoliad 9(6)(c).
- Ymestyn yr asesiad o berthynas y darpar warcheidwad arbennig ar hyn o bryd ac yn y gorffennol â'r plentyn a rhieni'r plentyn, er mwyn cynnwys safle'r person o fewn rhwydweithiau teuluol ehangach – Rheoliad 4(e)(ddb).
- Cynnwys safbwyntiau'r darpar warcheidwad arbennig ar unrhyw anghenion hyfforddi neu gymorth a allai fod ganddo nawr neu yn y dyfodol (e.e. ar reoli cyswllt, deall effeithiau trawma, ac ymlyniad).
- Cynnwys trefniadau wrth gefn pe byddai'r gwarcheidwad arbennig yn marw neu'n dod yn analluog.

2.4. Roedd galwadau i gynghorwyr meddygol (e.e. meddygon teulu) asesu iechyd darpar warcheidwaid arbennig, ac i gynnal asesiad iechyd meddwl a llesiant cynhwysfawr. Mynegwyd pryder gan rai gofalwyr sy'n berthnasau y ceir gwahaniaethu yn erbyn rhai gofalwyr hŷn, pe na fyddai'r asesiad iechyd yn

cael ei gynnal gan weithiwr proffesiynol diduedd. Cyflwynwyd dadleuon mai'r hyn a oedd yn bwysig oedd y gallu i ofalu am y plentyn, ac nid oedran.

2.5. Roedd nifer o ymatebion yn pwysleisio bod angen i'r asesiadau hyn fod yn gyfannol, a chanolbwyntio ar warcheidiaeth arbennig fel dewis parhaol ar gyfer y plentyn. Awgrymwyd y dylai asesiadau fod yn debycach i asesiadau gofalwyr maeth a mabwysiadwyr, gan ddilyn yr un prosesau trylwyr ar gyfer sicrhau bod y cofnodion yn gywir. Roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â sylwadau am amserlenni ar gyfer cynnal yr asesiadau hyn, yn enwedig mewn achosion cyfraith gyhoeddus – mater yr ymdrinnir ag ef ar wahân isod.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.6. Ein nod wrth ddiwygio'r rhestr o'r materion i'w cynnwys mewn adroddiadau oedd sicrhau y byddai asesiadau darpar warcheidwaid arbennig yn fwy cyfannol ac yn canolbwyntio ar warcheidiaethau arbennig fel dewis parhaol a fyddai'n parhau hyd nes i'r plentyn fod yn 18 oed. Byddai hyn yn cynnwys ystyriaeth lawnach o unrhyw ffactorau risg. Roedd y rhan fwyaf o'r diwygiadau a awgrymwyd yn cyd-fynd â'r nod hwn, ac rydym ni wedi gwneud rhai newidiadau lle'r ydym yn credu bod y geiriad a awgrymwyd yn well na'r gwreiddiol.

2.7. Yn sicr, nid oeddem yn bwriadu gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr hŷn nac atal aelodau hŷn o'r teulu, fel neiniau a theidiau, rhag gwneud cais am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Fodd bynnag, cyflwynwyd Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn benodol fel dewis parhaol newydd ar gyfer plant, gan ddarparu amgylchedd teulu sefydlog hyd nes i'r plentyn ddod yn oedolyn, ac yn hynny o beth mae'n iawn bod gallu a pharodrwydd darpar warcheidwad arbennig i ofalu am y plentyn yn y tymor hirach yn cael ei brofi yn y cam asesu. Mae'r cod ymarfer yn ei gwneud yn glir y dylai awdurdod lleol, wrth wneud ei benderfyniad, ofyn a allai'r ymgeisydd ofalu am y plentyn, pan fo hynny'n briodol, pe byddai digon o gymorth ar waith i helpu'r trefniant i lwyddo. Pan fo angen, gallai hyn gynnwys ystyried trefniadau wrth gefn rhag ofn i iechyd y gwarcheidwad arbennig ddirywio. Pan fo iechyd ymgeisydd yn ffactor i'w ystyried wrth wneud asesiad (ac mae hwn eisoes wedi'i gynnwys yn y rhestr o faterion), rydym ni o'r farn y byddai'n anghymesur i gyflwyno system o ymgynghorwyr meddygol yn debyg i'r system fabwysiadu, gan fod Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig fel arfer yn drefniant teuluol ('perthynas').

## • Cymorth i blant a fu'n derbyn gofal

**Cwestiwn 2** - A ydych yn cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol a fu'n gofalu am blentyn (yn union cyn y gwnaed Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig) ddiwallu unrhyw anghenion cymorth gwarcheidiaeth arbennig am dair blynedd, ni waeth lle mae'r plentyn yn byw?

2.8. Cafwyd croeso eang i'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol a fu'n gofalu am blentyn ddiwallu unrhyw anghenion gwarcheidiaeth arbennig am dair blynedd ar ôl i'r GGA gael ei wneud. Teimlwyd y byddai hyn yn rhoi

eglurder a chysondeb, ac y byddai'n sicrhau goruchwyliaeth effeithiol yn ystod y cyfnod cychwynnol o dair blynedd.

2.9. Roedd rhai yn ansicr a daeth rhai ymholiadau i law. Gofynnwyd i ni egluro beth fyddai'n digwydd pan fyddai'r gwarcheidwad arbennig yn byw yn rhan arall o'r DU, yn enwedig pan fo'r cyfnod o dair blynedd wedi dod i ben. Gofynnwyd am eglurder hefyd ynghylch beth ddylai ddigwydd pan yr aseswyd bod angen gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig ond nad oedd y plentyn yn derbyn gofal nac yn wybyddus i'r awdurdod lleol yn flaenorol, a phan oedd y gwarcheidwad arbennig yn byw mewn ardal arall.

2.10. Roedd pryder gwirioneddol na fyddai'r awdurdod lleol newydd yn darparu'r un lefel o gymorth ar ôl i'r cyfnod o dair blynedd ddod i ben, yn enwedig gan fod lefel y cymorth yn ddisgresiynol. Pwysleisiwyd bod effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn debygol o barhau am fwy na thair blynedd. Awgrymwyd y dylid sicrhau monitro cadarn o gynlluniau cymorth GGA ar gyfer plant a leolir yn bell i ffwrdd. Roedd un ymateb yn galw am drefniant trosglwyddo clir gydag amserlenni ac adolygiad o anghenion ar yr adeg trosglwyddo.

2.11. Roedd galwadau am ymagwedd fwy cyfannol tuag at ddarparu cymorth, wedi'i chysylltu'n fwy clir â'r canlyniadau llesiant a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.12. Roeddem ni'n falch bod y cynigion hyn yn cael eu croesawu. Materion ymarferol yn bennaf oedd y pryderon penodol a godwyd, a byddwn yn eu hystyried yn fanylach gyda Grŵp Technegol y GGA. Ein bwriad ni yw datblygu canllawiau ymarfer da ynghylch lleoliadau allan o'r ardal ac ar draws y ffin ar gyfer gofal preswyl a gofal maeth, yn ystod 2018-19, a byddwn yn ystyried a yw'n briodol i gynnwys trefniadau GGA yn y rhain. Dylid nodi bod canllawiau Adran Addysg Llywodraeth y DU ar leoliadau GGA yn gosod gofynion tebyg ar awdurdodau lleol yn Lloegr, felly dylai'r trefniadau ar gyfer plant a fu'n derbyn gofal yn y ddwy wlad gyd-fynd yn daclus â'i gilydd, mewn egwyddor, o ran trefniadau ar draws y ffin. Er hyn, byddwn yn trafod hyn â swyddogion yr Adran Addysg i sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu lledaenu i awdurdodau lleol yn Lloegr ac yng Nghymru.

**Cwestiwn 3** – A ydych yn cytuno bod yn rhaid i awdurdod lleol, yn yr amgylchiadau hyn, adolygu'r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig sydd ar gael, a hysbysu'r awdurdod lleol y mae'r unigolyn yn byw ynddo am unrhyw angen am gymorth parhaol?

2.13. Roedd hwn yn dilyn ymlaen o gwestiwn 2, felly roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig y byddai'r awdurdod lleol a oedd yn gofalu am y plentyn yn adolygu'r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig a ddarperir, wrth i'r cyfnod o dair blynedd ddod i ben, a rhoi gwybod i'r awdurdod ble y mae'r plentyn yn byw erbyn hyn am unrhyw angen am gymorth parhaol. Er enghraifft, roedd y Comisiynydd Plant o'r farn y dylai'r adolygiad angen rhagweithiol hwn, a'r hysbysiad i'r awdurdod lleol,

gynorthwyo teuluoedd i gael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fyddant ei angen.

2.14. Roedd rhai o'r ymatebion yn mynegi pryder ynglŷn â beth fyddai'n digwydd pe na fyddai'r awdurdod lleol sy'n derbyn y plentyn yn gallu cynnig yr un lefel o gymorth ar gyfer y trefniant neu yn amharod i wneud hynny, a beth fyddai'r goblygiadau ar adnoddau. Awgrymodd un y dylid bod hyblygrwydd i'r ddau awdurdod lleol weithio gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod o dair blynedd, yn enwedig o ran cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau lleol.

2.15. Mynegwyd pryder y gallai gofalwyr maeth blaenorol sy'n dod yn warcheidwaid arbennig fod ar eu colled pe byddai pecynnau cymorth yn dod i ben yn sydyn. Mae angen cymorth therapiwtig ar rai o'r plant hyn yn yr un modd â phlant sy'n cael eu mabwysiadu neu eu maethu. Os nad yw anghenion y plentyn wedi newid ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd, dylai'r pecyn cymorth barhau yn yr un modd â phe byddai'r plentyn yn dal dan ofal yr awdurdod lleol.

2.16. Roedd rhai yn gofyn am esboniad ynghylch pa awdurdod lleol fyddai'n gyfrifol am ddarparu cymorth i bobl sy'n gadael gofal sy'n rai 'categori 5' mewn achosion o'r fath. Mae pobl sy'n gadael gofal ac sy'n rai Categori 5 yn bobl ifanc 18-21 oed y daeth eu cyfnod fel plentyn sy'n derbyn gofal i ben pan wnaethpwyd gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.17. Er bod yr holl awdurdodau lleol yn gweithio o fewn yr un fframwaith statudol ar gyfer GGA, rydym yn ymwybodol y ceir gwahaniaethau yn y lefel a'r math o wasanaethau cymorth sydd ar gael i warcheidwaid arbennig a phlant mewn trefniadau gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig ledled Cymru. Mae hwn yn fater sy'n ymwneud ag ymarfer y byddwn ni'n gweithio arno gyda Grŵp Technegol y GGA i fynd i'r afael ag ef. Byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd a bod yn hyblyg wrth ddiwallu anghenion plant a gwarcheidwaid arbennig, yn enwedig pan fo'r plentyn wedi symud i ardal newydd, pa un a oedd y plentyn yn derbyn gofal ai peidio. Caiff y neges hon ei hatgyfnerthu yn y Cod Ymarfer. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r cyfnod pontio cyn diwedd y cyfnod statudol o dair blynedd ar gyfer cefnogi plant a fu'n derbyn gofal. Dylid tybio y bydd unrhyw anghenion cymorth parhaus yn parhau i gael eu diwallu, ond mae'n rhaid i'r awdurdod newydd fod â rhywfaint o ddisgresiwn i ddiwallu'r anghenion hynny mewn ffordd wahanol, yn enwedig os yw gwasanaethau cymorth y GGA y mae'n eu darparu i'w drigolion yn cael eu trefnu'n wahanol i rai'r awdurdod gwreiddiol. Mewn llawer o achosion, mae'n bosibl y bydd angen (neu'n arfer da) i'r ddau awdurdod weithio gyda'i gilydd o'r adeg y mae'r plentyn yn dechrau yn y trefniant - er enghraifft os oes angen i'r plentyn neu'r gwarcheidwad arbennig gael gwasanaethau lleol, neu os ydynt yn byw yn bell o ardal yr awdurdod lleol gwreiddiol.

- **Rhoi gwybod i bobl berthnasol am eu hawl i ofyn am asesiad i gael cymorth**

**Cwestiwn 4** - A ydych yn cytuno bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i hysbysu'r bobl berthnasol o'u hawl i ofyn am asesiad i gael gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig?

2.18. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno ar y pwynt hwn yn gyffredinol. Awgrymodd un awdurdod lleol bod hyn eisoes yn ymarfer da, ac awgrymodd un arall y dylid cynnig hyn trwy gydol y broses gyfan, nid dim ond ar y cychwyn, gan gynnwys cyn adolygu'r trefniadau.

**Cwestiwn 5** – A oes unrhyw unigolion eraill y dylid eu hychwanegu, yn eich barn chi, at y rhestr o bobl sydd wedi'u rhagnodi?

2.19. Roedd yr ymatebwyr yn credu bod y rhestr yn gynhwysfawr ac yn drylwyr ar y cyfan.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.20. Rydym ni'n falch â'r consensws cyffredinol ar y pwynt hwn, ac nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau eraill. Mae'r cod ymarfer yn ei gwneud yn glir y dylai awdurdodau lleol gadw mewn cysylltiad â gwarcheidwaid arbennig, a phan fo hynny'n briodol, eu hatgoffa am eu hawl i ofyn am asesiad ar gyfer gwasanaethau cymorth pe byddai eu hamgylchiadau yn newid.

- **Unrhyw sylwadau eraill ar y Rheoliadau drafft**

**Cwestiwn 6** – A hoffech chi gynnig unrhyw sylwadau eraill ar y Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 drafft?

2.21. Roedd y sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn dueddol o godi pryderon mwy cyffredinol, a oedd yn gorgyffwrdd i raddau helaeth â'r sylwadau ar y cod ymarfer drafft a'r materion ymarfer cyffredinol. Yn hynny o beth maent wedi eu cynnwys o dan gwestiynau 7 i 9 isod.

2.22. Yn benodol i'r Rheoliadau drafft, roedd dau o'r ymatebion yn awgrymu y dylai fod darpariaeth statudol i asesu iechyd plant sy'n destun gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig, ac am baratoi cynllun meddygol hirdymor. Awgrymwyd ein bod yn sefydlu system o gynghorwyr meddygol yn debyg i'r rhai hynny a ddefnyddir mewn achosion mabwysiadu.

2.23. Awgrymwyd y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer cyn-ofalwyr maeth i barhau i gael lwfansau maethu ar ôl dod yn warcheidwaid arbennig, oni bai bod newid sylweddol yn eu hamgylchiadau ariannol. Roedd pryder ehangach y tu ôl i hyn, sef y byddai cyn-ofalwyr maeth yn aml ar eu colled pan fyddant yn dod yn warcheidwaid arbennig, wrth i'r cymorth gael ei dynnu'n ôl neu ei leihau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.24. Rhoddwyd ymateb i'r pwynt ynghylch asesiadau meddygol a chynghorwyr meddygol fel ateb i Gwestiwn 1 uchod. Ein barn ni yw y byddai'n anghymesur i gyflwyno system o gynghorwyr meddygol yn debyg i'r drefn wrth fabwysiadu, gan fod gwarcheidwaid arbennig fel arfer yn drefniant teuluol ('perthynas'). Ceir sylwadau ynghylch y cymorth sydd ar gael i gyn-ofalwyr maeth yn yr ymateb i Gwestiynau 8 a 9 isod.

## b) Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig

**Cwestiwn 7** – A hoffech chi gynnig unrhyw sylwadau ar y Cod Ymarfer drafft?

2.25. Roedd rhai o'r ymatebion yn cyflwyno sylwadau manwl neu'n awgrymu diwygiadau i'r Cod Ymarfer drafft. Ystyriwyd y rhain, a lle'r oedd yn briodol, maent wedi'u cynnwys yn y testun. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion, fodd bynnag, yn gwneud sylwadau cyffredinol am faterion a oedd yn peri pryder, yr oedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen mynd i'r afael â hwy neu ymdrin â hwy mewn ffordd wahanol neu fwy trylwyr yn y cod drafft. Amlinellir y rhain isod.

### • Amserlenni'r asesiadau

2.26. Roedd sawl un o'r rhanddeiliaid allweddol wedi crybwyll yr amserlenni ar gyfer asesiadau addasrwydd mewn achosion cyfraith gyhoeddus, gan gynnwys y Comisiynydd Plant, Canolfan Cyfraith Iechyd a Gofal Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu Cymru, a'r Rhwydwaith Maethu. Bu'r rhain i gyd yn rhan o'r Grŵp Technegol a fu'n ein cynghori ar y rheoliadau a'r cod ymarfer drafft, a chafodd y mater hwn ei drafod yn helaeth yng nghyfarfodydd y grŵp hwnnw. Cafodd y mater hwn ei grybwyll hefyd mewn nifer o ymatebion gan lywodraeth leol.

2.27. Nodwyd bod yr awdurdod lleol yn cael tri mis i gynnal asesiad ac adrodd yn ôl i'r llys mewn ceisiadau cyfraith breifat (wedi'i bennu yn Neddf Plant 1989). Fodd bynnag, caiff y dyddiadau terfyn ar gyfer asesiadau mewn achosion cyfraith gyhoeddus eu pennu gan y llysoedd, sy'n gorfod dod â thrafodion cyfraith gyhoeddus i ben o fewn amserlen o 26 wythnos ar y mwyaf. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod gan awdurdodau gryn dipyn yn llai na 12 wythnos i gynnal yr asesiadau hyn.

2.28. Mae'r cyfnod o dri mis yn rhoi ystyriaeth i'r angen i weithio gydag aelodau'r teulu i sicrhau eu bod yn deall ac yn barod am yr hyn y byddent yn ymgymryd ag ef fel gwarcheidwaid arbennig, ac i sicrhau y byddai unrhyw drefniant yn ddiogel i'r plentyn. Mewn achosion cyfraith gyhoeddus, bydd gan yr awdurdod lleol rywfaint o wybodaeth am y teulu eisoes, ond mae'n annhebygol y bydd yn gwybod rhyw lawer am aelodau'r teulu estynedig sy'n cyflwyno'u hunain fel darpar warcheidwaid arbennig. Bydd angen amser ar awdurdodau lleol felly i

weithio gyda nhw ac asesu eu haddasrwydd a pha anghenion cymorth fyddai eu hangen arnynt o bosibl.

2.29. Er y deallwyd y bydd y cod ymarfer yn berthnasol i awdurdodau lleol yn unig ac na allai ‘rwymo’ y llysoedd a’r barnwyr i gymryd camau penodol, mae’r rhanddeiliaid hyn yn credu y gellid atgyfnerthu’r cod ymhellach i gefnogi awdurdodau lleol o ran y cyfnod asesu. Teimlwyd nad oedd y cod ymarfer drafft yn ymdrin â’r mater hwn yn ddigonol.

2.30. Yn arbennig, tynnwyd sylw at achos penodol – Re S [2014] EWCC B44 (Fam) – pan amlygodd Llywydd yr Adran Deulu (Syr James Munby) dri senario pan fyddai’n ‘angenrheidiol’ cael estyniad y tu hwnt i’r cyfnod o 26 wythnos. Digwyddiad annisgwyl oedd un o’r rhain, gan gynnwys achosion pan fo aelod o’r teulu a allai fod yn ofalwr amgen realistig yn dod i’r amlwg yn hwyrach yn y broses. Awgrymwyd y dylid cyfeirio at hyn hefyd, yn ogystal â’r ffaith y rhoddir tri mis mewn achosion cyfraith breifat a bod cyfnodau hirach yn cael eu caniatáu ar gyfer asesiadau maethu a mabwysiadu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.31. Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater sy’n peri pryder sylweddol i awdurdodau lleol. Cafodd ei godi gan Grŵp Technegol y GGA, a’n helpodd i adolygu’r trefniadau ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig yng Nghymru, ac mae wedi’i drafod hefyd â’r barnwyr llys teulu mewn cyfarfod Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol. Mater i’r barnwyr, fodd bynnag, yw pennu amserlenni ar gyfer asesiadau a gaiff eu gorchymyn gan y llys, a hynny fel y maen nhw’n ei weld orau, o fewn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus cyffredinol, ac ni all y cod ymarfer roi dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol ac eithrio mewn perthynas â’u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Ni all lyffethair disgresiwn y barnwyr mewn perthynas â’u dehongliad nhw o’r gyfraith fel y mae’n berthnasol i bob achos unigol. Rydym yn bwriadu ychwanegu paragraff ychwanegol at y cod ymarfer yn tynnu sylw awdurdodau lleol i’r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a’r achos penodol (Re S [2014] EWCC B44 (Fam)) a lywiodd farn Syr James Munby ar estyniadau posibl, i helpu awdurdodau lleol i ddeall y cyd-destun y mae’r llysoedd yn gweithio ynddo.

- **Asesiadau dichonoldeb**

2.32. Awgrymwyd bod y cod yn cyfeirio at asesiadau cychwynnol (a elwir yn aml yn asesiadau dichonoldeb), a ddefnyddir, er nad ydynt yn statudol, gan lawer o awdurdodau lleol i benderfynu pa aelodau o rwydwaith teulu a ffrindiau plentyn a allai fod yn ofalwyr. Lluniwyd canllawiau ymarfer da gan weithgor arbenigol a ymgasglwyd gan y Grŵp Hawliau’r Teulu yn 2017. Nodwyd hefyd bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnal asesiad ‘unedig’, lle cynhelir asesiad o dan Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 ar yr un pryd ag asesiad o dan Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.33. Mae cyfeiriad at asesiadau dichonoldeb, ac i ganllawiau ymarfer da Grŵp Hawliau’r Teulu, wedi’u hychwanegu i’r cod ymarfer.

- **Cyfnod pontio / profi'r trefniant**

2.34. Awgrymwyd y dylai'r cod gynnwys canllawiau ar sut y gall awdurdodau lleol gefnogi'r cyfnod pontio i drefniant gwarcheidiaeth arbennig, o ystyried bod darpariaeth mewn deddfwriaeth ar gyfer cyfnod ymgartrefu (fel sy'n bodoli ar gyfer mabwysiadu) neu gyfnod o fonitro.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.35. Gan nad oes sail statudol ar gyfer cyfnod pontio neu gyfnod ymgartrefu ffurfiol ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig, fel sy'n bodoli ar gyfer mabwysiadu, mae cefnogi plentyn i ymgartrefu yn y trefniant yn fater o ymarfer da a byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol ddatblygu a gweithredu hynny'n lleol. Mae'r cod ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried yn ofalus pa gymorth y gallai fod angen ei sefydlu i helpu i gryfhau a datblygu'r berthynas neu i gefnogi'r plentyn orau i addasu i'w gartref a'i amgylchedd teuluol newydd.

- **Canlyniadau**

2.36. Croesawyd cynnwys yn y cod dabl o ganlyniadau ar gyfer trefniadau gwarcheidiaeth arbennig, sy'n deillio o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Fframwaith Canlyniadau Llesiant Cenedlaethol. Fodd bynnag, nodwyd na roddir unrhyw ganllawiau nac esboniad ynghylch sut y gallai awdurdodau lleol gynnwys y rhain yn eu polisïau a'u hymarfer, na sut y dylent fesur llwyddiant. Dylai cyfeiriad at y canlyniadau hyn, a'r ddyletswydd i fynd ar eu trywydd, fod wedi'i gynnwys yn y bennod ar gymorth yn enwedig. Awgrymwyd y dylai'r penawdau ar gymorth adlewyrchu'n gryfach yr angen am gymorth i fagu'r plentyn, a chyflawni'r canlyniadau llesiant ar atal plant rhag byw mewn tlodi. Ysgogwyd hwn gan bryder ynghylch y lefelau amrywiol o gymorth ariannol a gynigir gan awdurdodau lleol ledled Cymru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.37. Rydym ni o'r farn mai mater ymarfer i awdurdodau lleol yw sut y maent yn integreiddio dulliau ar sail hawliau yn eu polisïau a'u hymarferion, a sut y caiff y rhain eu monitro. Mae'r cod ymarfer yn nodi'r fframwaith statudol y maent yn ei ddefnyddio i wneud hyn. Byddwn ni, serch hynny, yn trafod yr angen am ganllawiau arfer da yn y maes hwn â Grŵp Technegol y GGA.

- **Trefniadau y tu allan i'r ardal**

2.38. Awgrymwyd y dylid cryfhau'r cod i sicrhau, pan fo gwarcheidwad arbennig yn byw yn bell o'r awdurdod 'lleoli', fod y ddau awdurdod yn cydweithredu i sefydlu pa wasanaethau a ddylai fod ar gael yn lleol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.39. Rydym ni wedi cryfhau'r cod drwy gynnwys gofyniad ynddo i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd o dan yr amgylchiadau hyn, fel sy'n briodol.

- **Trefniadau byw ôl-18**

2.40. Gofynnodd un ymateb am eglurder o ran pa un a oedd gweithdrefn sy'n cyfateb i 'Pan Rwyf yn Barod' i gefnogi person ifanc i barhau i fyw gyda'r gwarcheidwad arbennig yn y cyfnod ôl-18, a pha un a oedd gan y bobl ifanc hyn hawl i gael cymorth cynghorwr personol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.41. Rydym ni wedi egluro, yn y bennod ar adael gofal, nad yw pobl ifanc o dan y trefniant gwarcheidiaeth arbennig yn gymwys ar gyfer y cynllun 'Pan Rwyf yn Barod'. Fodd bynnag, mae ffyrdd eraill y gall awdurdod lleol gefnogi plant a fu'n derbyn gofal i barhau i fyw gyda gwarcheidwad arbennig pan fydd yn 18 oed ac yn hŷn, yn enwedig pan oedd y gwarcheidwad yn ofalwr maeth y plentyn cyn hynny. Gall plant a fu'n derbyn gofal a ddaeth yn rhan o drefniant gwarcheidiaeth arbennig fod yn gymwys am gymorth fel 'person ifanc categori 5' o dan Ddeddf 2014, a gallai hyn gynnwys cymorth cynghorwr personol.

- **Eiriolaeth**

2.42. Awgrymodd un ymatebwr y dylai bod adran ar wahân yn y cod ar gyfer eiriolaeth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.43. Mae cyfeiriadau at eiriolaeth wedi eu cynnwys yn nhestun y cod yn unol â'r hyn sy'n briodol, ac nid ydym o'r farn bod angen pennod ar wahân ar ei chyfer.

## c) Sylwadau eraill

**Cwestiwn 8 -** A ddylen ni wneud unrhyw newidiadau eraill, yn eich barn chi, i'r rheoliadau neu'r cod ymarfer, i wella'r ffordd y mae trefniadau gwarcheidiaeth arbennig yn gweithio yng Nghymru?

**Cwestiwn 9** - Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

2.44. Gwnaed pwyntiau ychwanegol mewn llawer o'r ymatebion a gellir eu crynhoi o dan y penawdau canlynol:

- **Cymorth ariannol**

2.45. Y prif bryder oedd swm y lwfans a fydd yn cael ei dalu i warcheidwaid arbennig, ac a ddylai hyn fod yn gyson â'r lwfansau cenedlaethol lleiaf ar gyfer maethu. Mynegodd cyn-ofalwyr maeth, yn arbennig, bryderon o ran pa un a fyddai'r cymorth ariannol yn cyfateb i'r lwfans maethu a'r ffioedd y maent yn eu cael ar hyn o bryd, ac am ba hyd y byddai'r rhain yn cael eu talu. Mynegodd awdurdodau lleol bryder hefyd ynghylch y diffyg eglurdeb ynglŷn â hyd y lwfansau i gyn-ofalwyr maeth.

2.46. Dywedodd llawer o gyn-ofalwyr maeth a aeth i'r cyfarfodydd ymgynghori a drefnwyd gan Plant yng Nghymru eu bod ar eu colled yn ariannol drwy newid o fod yn ofalwyr maeth sy'n berthynas i fod yn warcheidwaid arbennig. Er enghraifft, nid oeddent bellach yn gymwys ar gyfer grantiau gwisg ysgol, a thynnwyd buddion megis lwfansau Nadolig a gwyliau oddi arnynt. Roedd yn rhaid iddynt hefyd dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chyswllt â'r rhieni biolegol yr oedd yr awdurdod lleol wedi'u talu pan oedd y plentyn yn rhan o'r system derbyn gofal.

2.47. Roedd galwadau am adolygiad o lwfansau GGA ledled Cymru ac am waith i gysoni taliadau rhwng awdurdodau lleol.

2.48. Roedd ansicrwydd hefyd ynglŷn â chyllid pan oedd gwarcheidwad arbennig yn byw y tu allan i Gymru (h.y. trefniadau ar draws ffiniau). Roedd galwadau am arweiniad ar hyn.

2.49. Mater arall oedd cymorth ariannol ar gyfer costau cyfreithiol, a hynny ar gyfer darpar warcheidwaid arbennig ac yn yr achosion hynny pan fyddai'n rhaid i'r gwarcheidwad arbennig fynd yn ôl i'r llys oherwydd materion yn ymwneud â chyswllt. Ystyriwyd bod hyn yn rhwystr sylweddol i neiniau a theidiau ag incwm sefydlog prin heb hael i gael cymorth cyfreithiol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.50. Rydym yn derbyn bod angen gwella cysondeb o ran cymorth ariannol a lwfansau ariannol i warcheidwaid arbennig ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid llywodraeth leol a phartneriaid eraill trwy'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol er mwyn cysoni ffioedd a lwfansau ar gyfer gofalwyr maeth, ac rydym yn cydnabod bod angen menter debyg o ran lwfansau'r GGA. Byddwn yn trafod â Grŵp Technegol y GGA ac yn cynnwys hyn yn rhaglen waith y grŵp.

- **Cyfnod treialu**

2.51. Crybwyllodd nifer o ymatebion y ffaith nad oedd unrhyw gyfnod 'treialu' neu ymgartrefu ar gyfer gwarcheidwaid arbennig mewn achosion cyfraith gyhoeddus, ond bod preswylio yn ofyniad cyn gwneud cais ar gyfer ceisiadau cyfraith breifat. Mynegwyd barn y dylai fod cyfnod ymgartrefu realistig cyn gwneud GGA, i brofi ymarferoldeb y lleoliad.

2.52. Awgrymodd un awdurdod lleol, hyd yn oed, ar gyfer achosion pan na fu perthynas sylweddol rhwng y darpar warcheidwad arbennig a’r plentyn ymlaen llaw, na ddylid gwneud cais am GGA tan ar ôl y trydydd adolygiad LAC (h.y. deg mis) er mwyn helpu i leihau nifer y GGA sy’n methu. Awgrymodd awdurdod arall y dylid cynnig gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig dros dro.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.53. Ni ellir pennu cyfnod ymgartrefu, neu GGA dros dro, ac eithrio trwy ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae cyfiawnder teuluol (gan gynnwys gorchmynion llys) yn fater a gedwir gan Senedd San Steffan. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y cod ymarfer yn cyfleu neges glir am yr angen am gymorth wrth i blentyn ymgartrefu mewn trefniant newydd, neu i gefnogi cadarnhad trefniant presennol.

- **Cynllunio sefydlogrwydd**

2.54. Nodwyd yr angen am gynllunio sefydlogrwydd priodol mewn rhai achosion, er mwyn sicrhau mai GGA oedd y dewis gorau o ran sefydlogrwydd ar gyfer y plentyn, yn hytrach na maethu hirdymor. Y pryder oedd bod gwahanol safonau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal pan fyddant yn cael eu rhoi mewn lleoliad maethu hirdymor neu eu mabwysiadu yn hytrach na chael eu rhoi mewn lleoliadau yn rhan o drefniadau GGA.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.55. Cyflwynwyd GGA fel modd o sicrhau bod plant yn derbyn gofal hyd at 18 oed, ac mae’r ffaith bod y gorchmynion hyn yn cael eu gwneud fwyfwy ar gyfer ein plant iau yn un o’r rhesymau allweddol dros ychwanegu at y rhestr o faterion yn y rheoliadau. Mae GGA, fodd bynnag, yn wahanol i faethu a mabwysiadu, gan nad yw’r plentyn yn derbyn gofal. Os yw’r awdurdod lleol o’r farn y byddai statws derbyn gofal yn well i’r plentyn, dylid ystyried dewisiadau eraill fel maethu hirdymor. Rydym wedi atgyfnerthu’r cod i bwysleisio’r ffaith y dylai awdurdodau lleol fod yn fodlon mai trefniant gwarcheidiaeth arbennig fyddai’r dewis gorau o ran sefydlogrwydd wrth ofalu am blentyn.

- **Cyn-ofalwyr maeth**

2.56. Nododd y Rhwydwaith Maethu bryder arbennig ynglŷn â sut oedd trefniadau gwarcheidiaeth arbennig yn gweithio ar gyfer cyn-ofalwyr maeth. Yr oedd yn glir o alwadau i’r llinell gymorth maethu fod rhai gofalwyr maeth yn teimlo y rhoddwyd pwysau arnynt i ymrwymo i GGA, ac na chawsant lawer o amser i wneud penderfyniad. Ceir amheuaeth bod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio trefniadau GGA i leihau nifer y plant sy’n derbyn gofal. Er enghraifft, nodir bod rhai swyddogion adolygu annibynnol wedi codi’r mater mewn adolygiad o blentyn sy’n derbyn gofal heb unrhyw drafodaeth flaenorol â’r gofalwr maeth. Ceir adroddiadau hefyd bod rhai awdurdodau lleol wedi bygwth tynnu’r plentyn o leoliad oni bai bod y gofalwr maeth yn cytuno i wneud cais am GGA. Nododd y Rhwydwaith Maethu fod pryder cynyddol bod rhai awdurdodau lleol

wedi'i wneud yn arfer i annog pob gofalwr maeth â phlentyn maeth hirdymor i ystyried GGA, yn hytrach na dilyn ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ac yn ystyried pob achos yn ei rinwedd ei hun.

2.57. Er mwyn ymdrin â hyn, hoffai'r Rhwydwaith Maethu weld cyngor annibynnol ar gyfer gofalwyr maeth y gofynnir iddynt fod yn warcheidwaid arbennig, er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth lawn o'r goblygiadau. Mae angen gwybodaeth fanwl arnynt am y cymorth a'r lwfansau y byddant yn eu cael yn awr ac yn y dyfodol.

2.58. I'r gwrthwyneb, awgrymodd un awdurdod lleol y dylai fod ganddynt yr hawl i wneud cais i'r llys ryddhau'r gorchymyn gofal pan fo'r awdurdod lleol o'r farn y byddai GGA yn fwy addas a phan fo'r gofalwr yn gwrthod ar sail cyllid.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.59. Rydym wedi atgyfnerthu'r cod ymarfer i'w gwneud yn ofynnol i sicrhau bod rhieni maeth yn derbyn gwybodaeth a chyngor priodol i'w helpu i wneud penderfyniad, gan gynnwys gwybodaeth am y cymorth a'r lwfansau y gallant ddisgwyl eu derbyn pan wneir y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig ac wrth i'r plentyn fynd yn hŷn. Rydym hefyd wedi cyfeirio at yr angen i roi cyngor annibynnol pan fo hynny'n briodol.

- **Cyngor annibynnol**

2.60. Awgrymwyd y dylai darpar warcheidwaid arbennig allu cael cyngor annibynnol, oherwydd swyddogaeth gweithiwr cymdeithasol yw gweithredu yn unol â chynllun gofal y plentyn. Mae angen cymorth annibynnol hefyd ar warcheidwaid arbennig newydd gan rywun nad yw'n weithiwr cymdeithasol, er mwyn sicrhau trosglwyddo effeithiol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym wedi sôn yn y cod bod angen sicrhau bod cyngor annibynnol ar gael i warcheidwaid arbennig a darpar warcheidwaid arbennig, pan fo hynny'n briodol.

- **Asesiadau**

2.61. Cafwyd galwadau am ddull cyson o asesu, am eglurdeb o ran asesu risg, ac arweiniad ar yr offer y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i asesu pobl nad ydynt yn rhieni. Mae GGA yn nodi'r angen i gael ei lywio gan arferion gorau o asesiadau mabwysiadu a maethu wrth ystyried GGA yn ddewis sefydlogrwydd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.62. Materion yn ymwneud ag ymarfer yw'r rhain yn bennaf, a byddwn yn gofyn i Grŵp Technegol y GGA ystyried y rhain yn rhan o raglen ehangach o waith i gefnogi trefniadau gwarcheidiaeth arbennig.

- **Cymorth**

2.63. Cafwyd galwadau i sicrhau bod cymorth ar gyfer gwarcheidwaid arbennig yn gyson â'r cymorth ar gyfer y rhai hynny sy'n mabwysiadu, oherwydd bod y ddau fath o ofalwyr yn ymdrin â'r un grŵp o blant i bob pwrpas. Mae hyn yn arbennig o wir pan nad yw'r plentyn yn byw gyda darpar warcheidwad arbennig eisoes.

2.64. Mathau o gymorth a nodwyd: monitro ac adolygu'r trefniadau yn flynyddol; gweithwyr cyswllt ar gyfer teuluoedd GGA; ystyried anghenion hyfforddi a chefnogi; cadarnhau bod y cyfyngiadau diogelu angenrheidiol ar waith; ac ymateb a chymorth prydlon i atal trefniant rhag methu. Gofynnodd un ymateb beth oedd y trefniadau ymweld a argymhellir pan fo cynllun cymorth ar waith.

2.65. Nodwyd, hyd yn oed gan rai awdurdodau lleol, bod gwasanaethau cymorth GGA yn anghyson a'u bod wedi'u tanddatblygu o'u cymharu â'r rhai a ddarperir i ofalwyr maeth a mabwysiadwyr, a bod angen blaenoriaeth a buddsoddiad arnynt. Crybwyllwyd cymorth addysgol yn benodol, oherwydd y gall hwn ddiflannu ar ôl gwneud GGA ac ni roddir gwybod i ysgolion pan fo plant yn byw o dan GGA. Awgrymwyd hefyd y dylid gweithio ar hanes bywyd pob plentyn GGA cyn y gwneir y gorchymyn, ac y dylai gwarcheidwaid arbennig gael hyfforddiant i'w helpu i rannu'r gwaith hanes bywyd â'r plant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r mater o ddulliau a lefelau cymorth anghyson i GGA ledled Cymru yn un y byddwn yn ei ystyried ymhellach gyda Grŵp Technegol y GGA. Bydd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gomisiynu gwaith ar lefelau cymorth (gan gynnwys cymorth ariannol) yn ystod 2018-19, a fydd yn debyg i waith sydd wedi'i wneud eisoes ar gyfer maethu o dan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol.

- **Cyswllt**

2.66. Awgrymwyd y dylai fod gan warcheidwaid arbennig hawl statudol i gymorth parhaus ar gyfer rheoli'r cysywllt â rhieni biolegol a pherthnasau eraill pan fo angen. Gallai fod angen cymorth parhaus ar y teulu biolegol hefyd i reoli cyswllt yn llwyddiannus.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cymorth i reoli cyswllt yw un o'r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig y gellid asesu'r gwarcheidwad arbennig a'r plentyn amdanynt. Mae'r cod ymarfer yn nodi y gall hyn gynnwys hyfforddiant a chymorth (gan gynnwys dulliau cyfryngu a chanolfannau cyswllt) o ran sut i ymdrin ag unrhyw broblemau neu wrthdaro a allai godi.

- **Hysbysiadau**

2.67. Cynigiwyd y dylid gweithredu system i roi gwybod i awdurdodau lleol eraill pan fo gwarcheidwad arbennig yn symud ardal.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r cod ymarfer eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod i awdurdod lleol arall pan fo gwarcheidwad arbennig yn newid ardal, ac rydym yn ystyried a oes angen gwneud hyn yn gliriach yn y cod.

- **Tarfu ar GGA**

2.68. Cododd nifer o ymatebion y mater o drefniadau GGA yn methu. Cafwyd galwad am waith ymchwil i amgylchiadau pan ddaw trefniadau GGA i ben, er mwyn llywio arfer. Ystyriwyd bod diffyg pwyslais ar gyfryngu, cyfarfodydd pan fo tarfu neu arferion adfer yn y cod ymarfer, yn arbennig pan yn ystod yr arddegau. Nodwyd hefyd nad oedd system gyson ar waith ar gyfer tracio canlyniadau neu gyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n rhan o drefniadau GGA.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.69. Ystyriodd Grŵp Technegol y GGA y data a'r ymchwil i GGA yng Nghymru sydd ar gael, yn ogystal â deunyddiau o'r adolygiad a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg yn Lloegr, yn rhan o'r adolygiad a arweiniodd at yr ymgynghoriad hwn. Byddwn yn trafod â Grŵp Technegol y GGA yr angen am unrhyw waith ymchwil arall i ganlyniadau ac i darfu/methiant GGA.

- **Cymorth ôl-18**

2.70. Codwyd dau fater ynglŷn â chymorth i bobl ifanc ôl-18 sy'n rhan o drefniadau gwarcheidiaeth arbennig. Mae gan blant sydd wedi derbyn gofal yn flaenorol yr hawl, mewn amgylchiadau penodol, i gael cymorth fel pobl sydd wedi gadael gofal 'categori 5', ond nid oedd yr hawl hwn gan bobl ifanc nad ydynt wedi derbyn gofal yn flaenorol (ond a fyddai wedi bod pe nad oedd y GGA wedi'i wneud). Hefyd, roedd cyn-ofalwyr maeth a oedd wedi dod yn warcheidwaid arbennig yn pryderu'n arbennig na fyddent yn cael cymorth gan y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' ar ôl i'r person ifanc droi'n 18.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

2.71. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' ar gael dim ond i bobl ifanc sy'n derbyn gofal maeth sy'n dymuno parhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth pan fyddant yn paratoi i fyw yn annibynnol. Mae dyletswydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i hwyluso'r trefniadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried y ffordd orau o ymestyn egwyddorau 'Pan Fydda i'n Barod' i blant sy'n derbyn gofal preswyl. Nid oes cynlluniau i ymestyn y cynllun i bobl ifanc sydd mewn trefniadau

gwarcheidiaeth arbennig, gan nad yw'r rhain yn lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal ac maent fel arfer yn drefniadau a wneir o fewn y teulu estynedig. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol bwerau i gefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed â llety drwy gynlluniau megis Llety â Chymorth, a byddem yn disgwyl iddynt drafod y rhain, fel y bo'n briodol, yng nghyd-destun y cymorth a'r cyngor cyffredinol y maent yn eu cynnig  i bobl ifanc sydd mewn trefniadau gwarcheidiaeth arbennig. Rydym wedi cryfhau'r bennod ar 'Gadael Gofal' yn y Cod Ymarfer i atgyfnerthu'r pwynt hwn. Rydym hefyd wedi ei gwneud yn glir y dylai awdurdodau lleol wneud gofalwyr maeth yn ymwybodol na fyddant yn gymwys ar gyfer 'Pan Fydda i'n Barod' os byddant yn warcheidwaid arbennig, ond bod dewisiadau posibl eraill i gefnogi'r person ifanc wrth iddo baratoi i fyw yn fwy annibynnol o 18 oed ymlaen.

## Atodiad A - Rhestr o'r ymatebion

| Rhif | Cyfrinachol Ie/Na | Enw | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| 1 | Na | Mrs Angela TH Jones | Cyfreithwyr Marchant Harries |
| 2 | Ie | | |
| 3 | Na | Pamela Phillips | |
| 4 | Na | Paul Phillips | |
| 5 | Ie | | |
| 6 | Na | Mr R W Ebley | |
| 7 | Na | Christie Ryder | |
| 8 | Na | Ian Monks | |
| 9 | Na | Sue Annett | Cyngor Sir Penfro |
| 10 | Ie | | |
| 11 | Na | Craig Macleod | Cyngor Sir y Fflint |
| 12 | Na | Yr Athro Sally Holland | Comisiynydd Plant Cymru |
| 13 | Na | Iain McMillan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| 14 | Na | Irfan Alam/Laura Harper | Cyngor Caerdydd |
| 15 | Na | Dr Teyrnon Powell | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| 16 | Na | Angela McErlane | Cyngor Sir Fynwy |
| 17 | Ie | | |
| 18 | Na | Deborah Smith | Kinship Care Practitioners Network, Plant yng Nghymru |
| 19 | Na | Deborah Smith | Grŵp Cefngogi Gwarcheidiaeth Arbennig Sir Fynwy |
| 20 | Na | Deborah Smith | Grŵp Cefngogi Gwarcheidiaeth Arbennig Port Talbot |
| 21 | Na | Deborah Smith | Grŵp Cefngogi Gofal gan berthynas Abertawe |
| 22 | Na | Deborah Smith/ Bernadette Byrne | Digwyddiad Ymgynghori - Casnewydd |
| 23 | Na | Carol Walker | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| 24 | Na | Colin Turner | Y Rhwydwaith Maethu |
| 25 | Na | Deborah Jones | Voices from Care |
| 26 | Na | Dr Julie Doughty | Prifysgol Caerdydd, Cardiff University, Cymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr, Cymdeithas Maethu a Mabwysiadu Cymru. |
| 27 | Ie | | |
| 28 | Na | Paul Pavia/Dave Street | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| 29 | Na | Peter Orford | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| 30 | Na | Sarah Capstick | Cyngor y Trydydd Sector Caerdydd |
| 31 | Na | Sarah Coldrick | Cymdeithas Maethu a Mabwysiadu Cymru |
| 32 | Na | Dr Ewoud Bos | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| 33 | Ie | | |